**IS-BWYLLGOR CRAFFU (POLISI AC ADNODDAU) Y CABINET**

**(CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR PORT, TALBOT A MICROSOFT TEAMS)**

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Mawrth, 18 Ebrill 2023**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd P.Rogers** |
| **Cynghorwyr**: | C.Galsworthy, R.G.Jones, R.Phillips, S.Pursey, A.J.Richards, C.Phillips a/ac C.Clement-Williams |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | C.Furlow-Harris, C.Griffiths, S.Rees, H.Jones, C.Owen, C.Cole, L.Hedges, A.Hinder, S.Mason, S.White, A.Southall, T.Davies a/ac C.John |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr S.K.Hunt, S.A.Knoyle a/ac A.Llewelyn |

---

1. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd y Pwyllgor.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Y Cyng. Rebecca Phillips - Eitem 7 ar bapurau bwrdd y Cabinet parthed: Y Diweddaraf am CCTV yng Nghastell-nedd Port Talbot ac Ymateb i Argyfwng gan ei bod yn aelod o Gyngor Tref Pontardawe.

3. **DIWEDDARIAD ARGYFWNG COSTAU BYW**

Derbyniodd yr aelodau ddiweddariad am yr argyfwng costau byw.

Rhoddwyd y diweddaraf i'r aelodau ynghylch ymateb parhaus y cyngor i'r argyfwng costau byw, fel a fanylwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Nododd aelodau y bu nifer o atgyfeiriadau i'r cynllun rhyddhad caledi, a gofynnwyd a oedd unrhyw ôl-groniad. Hysbysodd swyddogion yr aelodau y byddent yn adrodd yn ôl am hyn yng nghyfarfod y Cabinet ym mis Mai 2023 yn dilyn trafodaethau gyda Cymru Gynnes.

Cafwyd trafodaethau ynghylch cysyniad cychwynnol y Cynllun Rhyddhad Caledi Nodwyd bod aelodau wedi gofyn am y cynllun yn wreiddiol er mwyn cefnogi'r rheini a oedd yn derbyn budd-daliadau, yn ogystal â'r rheini a oedd yn gweithio ac yn ei chael hi'n anodd gyda'r argyfwng costau byw bresennol. Dywedodd swyddogion wrth yr aelodau fod meini prawf wedi'i bennu i ganiatáu i amrywiaeth ehangach o etholwyr wneud cais am y cyllid, fodd bynnag byddent yn trafod â Cymru Gynnes i ofyn am ddata pellach er mwyn dadansoddi a oedd y cynllun yn targedu'r rheini y mae angen yr arian arnynt.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

4. **CRAFFU CYN PENDERFYNU**

Y Diweddaraf am CCTV yng Nghastell-nedd Port Talbot ac Ymateb i Argyfwng

Diweddarwyd yr aelodau ynghylch CCTV ac ymateb, fel a nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Gofynnodd yr aelodau am ddiweddariad am y cais am CCTV yn ardal Pontardawe. Cadarnhaodd swyddogion fod potensial i ddefnyddio cronfa ffyniant gyffredin y DU i osod CCTV ar gyfer Cyngor Tref Pontardawe.

Cafwyd trafodaethau ynghylch cyfathrebu â'r cyhoedd am y newidiadau i CCTV, megis monitro 24/7, ynghyd â chyfarpar newydd wedi'i ddiweddaru. Soniwyd hefyd fod angen ystyried parhau i ymgysylltu â Heddlu De Cymru. Cadarnhaodd swyddogion fod y tîm cyfathrebiadau wedi cael y dasg o hysbysu'r cyhoedd am y newidiadau i fonitro 24/7 drwy ddatganiad i'r wasg, a bod ymgysylltu â Heddlu De Cymru yn parhau.

Gofynnodd aelodau i bennu'r meini prawf o ran ble i osod y camerâu gyda'r pwyllgor, er mwyn cael dealltwriaeth o sut caiff y camerâu hyn eu gosod a'u monitro.

Trafodwyd y goblygiadau ariannol, a theimlwyd nad oedd manylion ariannol cefnogi CCTV wrth symud ymlaen wedi cael eu cynnwys yn

yr effeithiau. Nodwyd y byddai gwybodaeth ar wahân am y sefyllfa ariannol yn cael ei rhannu ag aelodau yn ogystal â thempled yr adroddiad i'w ystyried, er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth briodol yn cael ei chynnwys wrth symud ymlaen.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

5. **BLAENRAGLEN WAITH 2022/23**

Rhoddodd swyddogion y diweddaraf i'r aelodau am y Flaenraglen Waith. Hysbyswyd yr aelodau y byddai sesiwn Flaenraglen Waith yn cael ei threfnu i ganiatáu i'r Pwyllgor lunio Blaenraglen Waith bellach, yn dilyn Cyfarfod Blynyddol y Cyngor.

6. **EITEMAU BRYS**

Ni datganwyd unrhyw fuddiannau.

**CADEIRYDD**